# Cofnodion Ebrill 7fed, 2022

**Presennol:** Y Maer, O Rhys Evans**,** Dilys Evans, Elin Hedd, Eluned Jones, Alun Price, Eifion Roberts, J C Williams

Lis Puw (Clerc)

1. **Croesawyd** pawb gan y Maer i gyfarfod olaf y Cyngor yn ei ffurf bresennol. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Heledd Roberts, Tony Parry, Ivora Jones, Dilwyn Morgan.

   Dywedodd y Maer ei fod yn anffodus wedi gwrthod gwahoddiadau i achlysuron a drefnwyd yn ddiweddar gan Gyfoeth Naturiol Cymru a'r Clwb Rotari oherwydd ei fod mewn cyfnod etholiad.

2. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 3/3/2022.
4. **Materion y Clerc:** Arwyddion cyfeirio - ni ddaeth ymateb gan Barc Cenedlaethol Eryri a disgwylir bydd y mater yn cael ei drafod gan y Cyngor newydd.
5. **Adroddiadau Cynghorwyr:**

   i. Un Llais Cymru: Rhoddodd Alun Price adroddiad o ddau gyfarfod o'r Pwyllgor Ardal a oedd yn cynnwys cyflwyniadau gan Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd, cynrychiolydd o Drafnidiaeth i Gymru a chynrychiolydd o Planning Aid Wales. Diolchwyd yn fawr iawn i Alun Price am gynrychioli'r Cyngor yng nghyfarfodydd ardal Un Llais Cymru.

   ii. Grŵp Busnes – nid oedd adroddiad wedi dod i law.

   iii. Partneriaeth Penllyn - adroddodd Alun Price fod y Bartneriaeth yn dringo nôl ar ôl y Covid. Derbyniwyd grantiau i hybu gwaith cefnogol yn y gymuned ac fe apwyntiwyd ymgynghorydd i chwilio am syniadau newydd i ddiwallu anghenion pobl Penllyn. Diolchwyd i Alun Price am gynrychioli'r Cyngor ar y Bartneriaeth.

6. **Materion Cynllunio:** Trwyddedu: Cymeradwywyd cais am drwydded gweini alcohol yn Old Wives' Tale, 21 Heol Tegid, Bala, Gwynedd LL23 7EH.

7. **Materion Cyllid:**

   **i.** Adroddodd y Clerc y bydd yn anfon gwybodaeth am y cyfrifon at yr Archwilydd Mewnol. Bydd y Clerc yn cyflwyno Adroddiad yr Archwilydd Mewnol yng nghyfarfod Mehefin os bydd wedi dod i law. Mae'r Archwilydd Allanol wedi anfon i ddweud ei fod yn barod i

ymestyn dyddiadau cyflwyno oherwydd trafferthion staffio yn y Swyddfa. Derbyniwyd manylion am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf. Gwrthododd pob Cynghorydd y treuliau y maent ganddynt hawl iddynt, felly mae'r *Gweddill* yn y cyfrif refeniw yn uwch nag a gynlluniwyd.

**ii.** Cytunwyd i dalu anfonebau: Ffioedd Archwilio Llywodraeth Cymru (£285), taliadau o dan Cytundebau, yn cynnwys ôl-daliad cyflog y Clerc, CThEM.

| |
|---|
| MEWNOL: Ystyriwyd mater cynnal a chadw'r Domen a chytunwyd i'r ychwanegiad o £100 i gwrdd â'r cynnydd ym mhris tanwydd. |

**8. Gohebiaeth:**

i. Cyfoeth Naturiol Cymru: Adroddiad misol Llyn Tegid - e-bostiwyd at yr aelodau ddiwedd mis Mawrth

ii. Cyngor Gwynedd: e-bostiwyd manylion am gau llwybrau dros dro; roedd hyn wedi ei amlygu yn flaenorol.

9. **Asedau'r Cyngor:** nid oedd adroddiad gan Carol Rowlands ar eu cyflwr ond diolchwyd iddi am ei gwaith diflino yn monitro'r asedau ar hyd ei thymor fel Cynghorydd.

10. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref**

Diolchwyd i Mark Bennett am ei gynnig i nodi pen-blwydd 150 y Gyfrinfa yn y dref. Gwnaethpwyd rhai awgrymiadau megis, cyfrannu cadair i Eisteddfod Ysgol Godre'r Berwyn a/neu arwydd hardd **Croeso i'r BALA Welcome** gyda'r arfbais ar y ffordd mewn i'r dref.

Adroddwyd y cyfeiriwyd cais gan y Rotari am fainc coffa ar lan yr afon i sylw swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru, gan nodi fod y Cyngor Tref yn ffafrio meinciau wedi eu creu o blastig wedi ei ail-gylchu.

Derbyniwyd cwyn am gyflwr toiledau'r Grin megis dim cloeon a seti yn nhoiledau'r dynion. Dywedodd y Clerc y byddai'n tynnu sylw Cyngor Gwynedd.

Wrth gloi'r cyfarfod, dywedodd y Maer ei fod yn ddiwedd cyfnod ar y Cyngor, a diolchodd i'r Cynghorwyr sydd wedi penderfynu ymddeol am eu cyfraniad effeithiol i waith y Cyngor ac i dref Y Bala. Dymunodd yn dda iawn iddynt ar eu hymddeoliadau. Diolchodd hefyd i bob Cynghorydd, a dymunodd yn dda i'r Cyngor Newydd. Diolchodd hefyd am waith a chefnogaeth y Clerc.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf: Mehefin 2il 2022, yn cynnwys Cyfarfod Blynyddol.

*Amser gorffen: 8.00pm*



ARWYDDWYD......................................................(MAER) / / .....................................(CLERC)